

Siarter Amgylcheddol SWOAPG

Ymrwymiad gan ddarparwyr addysg gweithgaredd ac antur i'r defnydd cynaliadwy o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac ardal gweithredu SWOAPG De Cymru.

Beth yw'r Siarter Amgylcheddol?

Mae'r Siarter Amgylcheddol yn ymrwymo canolfannau gweithgaredd ac addysg i'r defnydd cynaliadwy o ardal gweithredu Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a SWOAPG De Cymru.

Mae holl aelodau SWOAPG sy wedi arwyddo i'r Siarter Amgylcheddol yn gwneud ymrwymiad i weithio gyda Thirfeddianwyr a Chyrff Amgylcheddol i gadw'r Siarter yn berthnasol ac yn effeithiol ar gyfer gwarchod yr holl lleoliadau a ddefnyddir ganddynt.

Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd rydym yn eu defnyddio fel darparwyr yn eiddo preifat, ac mae Siarter Amgylcheddol SWOAPG yn annog grwpiau i dangos parch ac ystyriaeth at drigolion lleol a defnyddwyr eraill, yn ogystal â dinasyddiaeth, yn y safleoedd y maent yn ymweld â nhw.

Fel Aelodau SWOAPG rydym yn:

- Cydnabod bod eu defnydd o'r amgylchedd naturiol yn dwyn cyfrifoldeb dros annog y rhai sydd yn ein gofal i ddysgu rhywbeth am rinweddau arbennig cefn gwlad a'r ffyrdd y gellir ei warchod
- Ymrwymo i arfer da ar gyfer y defnydd cynaliadwy o gefn gwlad
- Cynnal gweithgareddau mewn ffordd sydd bob amser yn sicrhau perthnasau da.

Fel aelodau cyswllt SWOAPG, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod y gall cefnogaeth, gofal a brwdfrydedd am Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a lleoliadau hamdden awyr agored yn Ne Cymru gael ei sbarduno gan weithgareddau awyr agored sydd o fewn telerau'r Siarter Amgylcheddol hon. Bydd Parc Cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori gydag aelodau SWOAPG sy wedi arwyddo i'r Siarter Amgylcheddol dros reolaeth a datblygiad polisi ynghylch popeth sydd o fewn fframwaith y Siarter hon.

Y Siarter Amgylcheddol

Cadwraeth

Rydym yn cydnabod y potensial da i feithrin ymrwymiad i gadwraeth yn ein cwsmeriaid. Mae natur ddwys a chofiadwy'r profiad awyr agored yn ei wneud yn ddull grymus ar gyfer gwerthfawrogi nodweddion arbennig ardaloedd gweithredol y Siarter Amgylcheddol a SWOAPG.

Byddwn yn osgoi difrod i safleoedd ac yn lleihau unrhyw aflonyddwch i fywyd gwylt, yn ôl codau ymddygiad a deddfwriaeth bywyd gwylt

Byddwn yn annog ein cydweithwyr, ein cwsmeriaid, a myfyrwyr i fwynhau ac i barchu bywyd gwylt, tirwedd, a threftadaeth ddiwylliannol ardal gweithredu SWOAPG

Rydym yn gwybod bod llawer o safleoedd, planhigion, ac anifeiliaid yn cael eu gwarchod trwy gyfraith ac yn fregus neu'n gallu cael eu niweidio. Byddwn yn rheoli ein grwpiau i osgoi unrhyw aflonyddu.

Byddwn yn osgoi gadael unrhyw nodweddion newydd sy'n cael effaith sylweddol ar gefn gwlad lle bynnag y bo modd, er enghraifft carneddi ac arwyddion. Os bydd hyn yn angenrheidiol oherwydd rhesymau diogelwch, byddwn yn cymryd i ystyriaeth safbwynt cyfredol pob corff sydd â diddordeb, gan gynnwys safbwynt y tiffeddiannwr. Os bydd amheuaeth ddigonol, byddwn yn ymgynghori â'r partiön perthnasol.

Byddwn yn gosod unrhyw nodau neu osodiadau dros dro er mwyn osgoi niweidio neu ymyrryd â rhai eraill.

Byddwn yn dilyn arfer da ar gyfer casglu samplau daearegol a biolegol

Byddwn yn cadw at Ddeddfwriaeth Mynediad i Gefn Gwlad a Chod Cefn Gwlad/Morol.

Byddwn yn ystyried y gymuned leol a defnyddwyr eraill o'r ardal

Mynediad

Rydym yn deal bod yr holl dir yn perthyn i rywun ac os byddwn yn defnyddio safle fe ddilynwn y canllawiau cyfredol ar gyfer mynediad a/neu ddeddfwriaeth berthnasol fel y sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

Byddwn yn sicrhau cytundeb tiffeddiannwyr lle bynnag y dymunwn ymestyn gweithgareddau i safleoedd newydd neu i ardaloedd lle nad yw caniatâd wedi'i drefnu

Byddwn yn parchu canllawiau SWOAPG ar gyfer safleoedd bregus neu sensitif lle mae materion neu broblemau penodol

Ystyried eraill

Byddwn yn dangos ystyriaeth tuag at dirfeddianwyr, trigolion ac eraill wrth yrru, parcio, a gosod offer, er enghraifft trwy gadw lonydd, llwybrau, a chlwydi yn glir

Byddwn yn gofalu nad yw ein gweithgareddau yn amharu ar fwynhad pobl eraill, gan osgoi yn arbennig greu gormod o sŵn neu ddod â gormod o bobl

Byddwn yn annog ein cydweithwyr, myfyrwyr a chwsmeriaid i ddeall ac i barchu anghenion y trigolion lleol, gan ystyried yn arbennig ddiogelwch pobl, eu heiddo a'u bywoliaeth.

Datblygiad

Rydym wedi ymrwymo i'r Siarter hwn ac yn annog ein cydweithwyr a grwpiau eraill i ddilyn y safonau hyn.

Byddwn yn anelu at ddatblygu adnoddau, offer, a gwybodaeth y gall yr hyfforddwyr eu defnyddio i'w cefnogi yn y maes

Byddwn yn anelu at ddarparu nifer o sesiynau hyfforddi a gweithdai bob blwyddyn, wedi'u hwyluso gan arbenigwyr mewn meysydd penodol fel planhigion, anifeiliaid, a daeareg ein safleoedd gweithgaredd

Byddwn yn dysgu trwy weithio mewn partneriaeth â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac unrhyw gyrff perthnasol eraill.

DIOGELWCH

Nid yw materion diogelwch yn rhan o Siarter Amgylcheddol SWOAPG.

Argymhellir i'r rhai sy'n cymryd rhan eu bod yn bodloni ar safon cymwysterau a hyfforddiant y sawl sy'n darparu'r gweithgaredd.

